**Rhif: WG36781**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# A470 bont Caersws – gwelliannau diogelwch cerddwyr

Chwefror 2018

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78964-583-5

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1

2. Datblygu a gwerthuso dewisiadau ..... 1

3. Ymgynghoriad cyhoeddus ..... 2

4. Dadansoddiad o'r ymatebion ..... 2

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn 2016-17, ar ran Llywodraeth Cymru (LlC), comisiynodd Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) astudiaeth i ymchwilio dewisiadau i fynd i'r afael â phryderon diogelwch cerddwyr wrth bont gyfredol cefnffordd yr A470 ym mhentref Caersws. Cynigiwyd chwe dewis, a chynhaliwyd trafodaethau gyda nifer o randdeiliaid. Un dewis a ffafrir ac i'w ymchwilio ymhellach oedd un lôn draffig sengl gyda throedffordd, o dan reolaeth signal traffig parhaol, ar y Bont Caersws bresennol ar yr A470. Argymhellwyd 'treial rheolaeth arwyddion' i ganfod yr effaith ar draffig lleol a thraffig trwodd.

1.2 Cyn hyn, yn 2001, comisiynwyd Cyngor Sir Powys, ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru (ACCC) ar y pryd, i ddarparu lôn draffig sengl gyda throedffordd benodol, o dan reolaeth signal traffig parhaol ar y bont gyfredol. Nid oedd y cyngor cymuned lleol yn fodlon gyda'r cynigion, ac aethant ymlaen i atal y cynllun rhag mynd ymlaen i'r cam adeiladu. Roedd y gymuned leol yn bryderus y byddai'r system rheoli traffig parhaol yn creu tagfeydd ychwanegol.

1.3 Gosodwyd systemau gwyliadwriaeth fideo / teledu cylch cyfyng (TCC) ac ardal ar wahân i gerddwyr ar y bont fel treial i ganfod beth fyddai hyd y ciw a symudiad cerddwyr rhwng 31 Mawrth ac 16 Mai 2017.

1.4 Dosbarthwyd dogfen ymgynghori gyhoeddus a holiadur i brif randdeiliaid ynghyd â rhoi llythyrau i drigolion Caersws ar ddydd Mercher 8 Tachwedd 2017, gyda'r dyddiad cau i dderbyn ymatebion erbyn dydd Mercher 31 Ionawr 2018. Roedd y ddogfen hefyd ar gael ar wefan LlC.

1.5 Gofynnodd yr holiadur am farn preswylwyr ar y treial system rheoli arwyddion traffig a dewisiadau gwella posib ac awgrymiadau.

1.6 Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2. Datblygu a gwerthuso dewisiadau

2.1 Roedd pedwar dewis gwella i'w hystyried (a gwneud dim):

A) Gwneud dim
B) darparu arwyddion ychwanegol (arwyddion rhybudd i gerddwyr) a marciau ffordd (ARAF/SLOW)
C) rheolaeth signal traffig parhaol, lôn draffig sengl a throedffordd ar y bont ffordd
D) adeiladu pont droed newydd sy'n gysylltiedig i'r bont rhestredig gradd II gyfredol
E) adeiladu pont droed ar ei phen ei hun newydd

2.2 Treial 'Rheolaeth Arwyddion Traffig' - Un dewis sydd yn cael ei ystyried yw adeiladu troedffordd benodol ar y bont, gan leihau'r lôn draffig ddwy-ffordd i lôn draffig sengl, o dan reolaeth traffig barhaol. Er mwyn profi effaith y dewis 'rheolaeth arwyddion traffig' ar lif traffig yr A470, roedd treial yn defnyddio goleuadau traffig dros dro wrth y ddwy ddynesfa i'r bont mewn grym rhwng 2 Mai ac 16 Mai 2017. Roedd lôn draffig sengl a llwybr cerdded ar wahân yn cael eu gweithredu ar y bont. Tynnodd y gwaith arsylwi TCC at y ffaith bod y rheolaeth arwyddion traffig wedi achosi ciwiau traffig cyfartalog rhwng 3 a 4 cerbyd wrth y ddwy ddynesfa i'r bont yn ystod y dydd. Fodd bynnag, yn ystod y treial, gwelwyd ciwiau o 10-15 cerbyd ar adegau. Gan fod y

rheolaeth traffig yn ei gwneud yn angenrheidiol i gerbydau stopio, mae nifer y digwyddiadau o giwio yn uwch nag heb reolaeth traffig.


## 3. Ymgynghoriad cyhoeddus

3.1 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn y cyhoedd ar:

- problemau diogelwch cerddwyr ar y bont Caersws gyfredol
- y dewisiadau gwella ar gyfer cysylltiad i gerddwyr
- y treial 'rheolaeth arwyddion traffig' a gynhaliwyd ym mis Mai 2017

3.2 Anfonwyd 500 holiadur drwy'r post i breswylwyr yng Nghaersws o fewn ardal y cynllun lleoliad a ddangosir isod:

**Cynllun lleoliad**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd

## 4. Dadansoddiad o'r ymatebion

4.1 Derbyniwyd 205 o ymatebion i'r holiadur. Roedd yr holiadur yn cynnwys saith cwestiwn; roedd y pedwar cyntaf yn sefydlu preswylfa, defnydd cerdded o'r bont, problemau diogelwch cerddwyr sydd wedi digwydd ar y bont, ac ystyriaeth o ddefnyddio'r bont yn y dyfodol os fyddai llwybr mwy diogel ar gael, a darparwyd dewis penagored i roi rhesymau neu i ymhelaethu ar yr ateb. Roedd Cwestiwn 5 yn cynnig dewis o bedwar gwelliant (a dewis i wneud dim) i'w graddio yn ôl trefn, gyda dewis i ddarparu sylwadau ar y gwelliannau a awgrymir. Roedd y ddau gwestiwn olaf yn benagored, ac yn gofyn am awgrymiadau ar welliannau cysylltiad i gerddwyr wrth Bont Caersws, ac unrhyw sylwadau ar y treial 'rheolaeth arwyddion traffig'.

4.2 Gweler Cwestiynau 1 i 7 isod, gyda'r ymatebion mewn tablau, ynghyd â chrynodeb:

4.3 C1. Beth yw eich diddordeb chi yng Nghaersws a'r cyffiniau? (e.e. preswylydd lleol, perchennog busnes lleol, cyfrifoldeb neu ddiddordeb statudol)?

| Diddordeb | Nifer yr ymatebion | Canran y 205 ymateb |
|---|---|---|
| Busnes Lleol ac/neu breswylydd Busnes | 198 | 96.6 % |
| Arall | 5 | 2.4 % |
| Ddim wedi ateb | 2 | 1.0 % |
| **Cyfanswm** | **205** | **100 %** |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, 198 (96.6%), yn drigolion lleol ac/neu breswylwyr busnes, roedd gan bump (2.4%) o'r ymatebwyr ddiddordebau 'Arall' yn yr ardal. Ni roddodd dau (1%) o'r ymatebwyr ateb.

4.4 C2. A ydych chi'n cerdded ar draws Pont Caersws, A470 dros Afon Hafren ar hyn o bryd?

| Categorïau yr ymatebion | Nifer yr ymatebion | Canran y 205 ymateb |
|---|---|---|
| Ydw | 135 | 65.8 % |
| Nac ydw | 67 | 32.7 % |
| Ddim wedi ateb | 3 | 1.5 % |
| **Cyfanswm** | **205** | **100 %** |

Mae 135 ymatebydd (65.8%) yn cerdded dros y bont, ac nid yw 67 (32.7%) yn cerdded dros y bont. Ni roddodd tri ymatebydd (1.5%) ateb.

Dyma grynodeb o'r amryw resymau pam fod trigolion yn croesi Pont Caersws dros afon Hafren:

| Categorïau yr ymatebion | Nifer yr ymatebion | Canran y 205 ymateb |
|---|---|---|
| Adloniant/Pleser | 101 | 49.3 % |
| Gwaith/Ysgol/Siopa/Trên/ Doctor/Swyddfa Bost/bws | 9 | 4.4 % |
| Cerdded dros y bont ond heb roi'r rheswm | 18 | 8.8 % |
| Rhesymau eraill | 7 | 3.4 % |
| Heb ateb Cwestiwn 2 | 3 | 1.5 % |
| Ddim yn cerdded dros y bont | 67 | 32.7 % |
| **Cyfanswm** | **205** | **100 %** |

Nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr sy'n cerdded ar y bont, 101 (49.3%) eu bod yn cerdded ar y bont am ryw ddiben adloniannol, megis gwylio neu chwarae pêl-droed ar y cae chwarae, cerdded neu fynd â chŵn am dro, pysgota, arwerthiannau cist car ac ymweld â ffrindiau neu ymweld â chanolfan y celfyddydau.

Dywedodd naw ymatebydd (4.4%) mai'r rheswm dros groesi'r bont oedd cyrraedd y gwaith neu'r ysgol, mynd i siopa, mynd i'r feddygfa neu i'r Swyddfa Bost, neu i ddal trên / bws.

O'r 135 ymatebydd a ddywedodd i ddechrau eu bod yn cerdded dros y bont, ni roddodd 18 ymatebydd (8.8% o'r 205 ymatebydd) reswm dros gerdded ar y bont.

Ni roddodd tri (1.5%) o'r ymatebwyr ateb, ac nid yw 67 o'r ymatebwyr (32.7%) yn cerdded ar y bont ar hyn o bryd.

4.5 C3. Ydych chi wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar Bont Caersws, A470?

| A ydych chi wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar y Bont? | Nifer yr Ymatebion | Canran y 205 ymateb |
|---|---|---|
| Do | 136 | 66.3 % |
| Naddo | 61 | 29.8 % |
| Ddim wedi ymhelaethu ar yr ateb | 8 | 3.9 % |
| **Cyfanswm** | **205** | **100 %** |

Mae 136 ymatebydd (66.3%) wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar y bont.

Ni phrofodd 61 ymatebydd (29.8%) wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar y bont.

Ni wnaeth wyth ymatebydd (3.9%) ymhelaethu ar eu hatebion.

Mae dros ddwywaith cymaint o ymatebwyr wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar y bont, o gymharu â'r rheini nad ydynt wedi profi unrhyw broblem.

O'r 136 ymatebydd a oedd wedi profi problemau diogelwch cerddwyr ar y bont, y mathau o ddigwyddiadau a ganlyn sydd fwyaf amlwg.

| Math y digwyddiad / Categorïau yr ymatebion | Nifer yr Ymatebion | Canran y 136 ymateb |
|---|---|---|
| Diffyg lle / wedi gwasgu | 67 | 49.3 % |
| Digwyddiadau neu fethiannau agos | 19 | 14.0 % |
| "Traffig" | 3 | 2.2 % |
| Goryrru | 20 | 14.7 % |
| Cerddwyr yn croesi'r bont | 7 | 5.1 % |
| Arall / dim sylwadau | 20 | 14.7 % |
| **Cyfanswm** | **136** | **100 %** |

Mae gan y problemau diogelwch a grybwyllwyd, er eu bod yn amrywio, resymau cyson.

O'r 136 problem diogelwch a brofwyd gan yr ymatebwyr, mae'r rhesymau a ganlyn yn codi:

Mae diffyg lle, mae'r bont yn rhy gul, neu mae ceir yn pasio'n rhy agos, neu deimladau o gael eu gwasgu neu eu gorfodi'n erbyn wal. Nodwyd y rheswm hwn 67 gwaith (49.3%).

Mae 19 o'r ymatebwyr (14.0%) wedi bod yn rhan mewn digwyddiad, neu wedi gweld methiannau agos.

O'r 136 problem diogelwch a brofwyd, nododd 20 ymatebydd (14.7%) y broblem neu'n ymddangos yn bryderus am fodurwyr sy'n goryrru ar y bont.

Efallai bod saith o'r ymatebwyr (5.1%) wedi ateb o safbwynt gyrrwr yn croesi'r bont. Ymddengys i'w pryderon gael eu cyfeirio tuag at gerddwyr tra eu bod yn croesi'r bont gyda char.

Mae rhai o'r problemau sy'n codi yn ddifrifol, er enghraifft: "bu bron i blentyn gael ei daro i lawr" neu pan fo pobl wedi cael eu "gorfodi yn erbyn wal y bont ar nifer o achlysuron." Roedd un wedi cael ei "daro â drych adain (*wing mirror*) cerbyd a oedd yn pasio wrth gerdded drosodd."

4.6 C4. Os mai 'Na' oedd eich ateb i C2 - A fyddech yn ystyried cerdded dros y Bont os fyddai 'llwybr diogel'?

Gweddill Cwestiwn 2 - A ydych chi ar hyn o bryd yn cerdded ar Bont Caersws, A470 dros Afon Hafren?

Er i 67 ateb 'Na' i gwestiwn 2, atebodd 80 Gwestiwn 4, a dangosir y canlyniadau yn y tabl isod:

| A fyddech yn croesi'r Bont os fyddai llwybr diogel? | Nifer yr Ymatebion | Canran yr 80 ymateb |
|---|---|---|
| Byddwn | 57 | 71.25 % |
| Na fyddwn | 23 | 28.75 % |
| **Cyfanswm** | **80** | **100 %** |

O'r tabl, gwelwn y byddai 57 (71.25%) o'r ymatebwyr a atebodd Cwestiwn 4 yn ystyried croesi'r Bont os fyddai 'llwybr diogel'.

Atebodd 23 ymatebydd (28.75%) 'Na' i'r cwestiwn hwn.

O'r 57 ateb 'Byddwn', nododd 17 (21.25%) o'r rhain gwell diogelwch fel y rheswm y byddant yn croesi'r Bont os fyddai 'llwybr diogel'.

4.7 C5. Rhestrwch y dewisiadau gwella yn nhrefn y rhai yr ydych yn eu ffafrio, gan ddefnyddio Rhifau 1,2,3,4, a 5 (1 = y dewis a ffafrir fwyaf, 5 = y dewis a ffafrir lleiaf)

A. Gwneud Dim - Dim newidiadau
B. Darparu arwyddion ychwanegol (arwyddion rhybudd i gerddwyr) a marciau ffordd (ARAF/SLOW)
C. Rheolaeth signal traffig parhaol, lôn draffig sengl a throedffordd ar y bont ffordd
D. Adeiladu pont droed newydd sy'n gysylltiedig i'r bont gyfredol (efallai y byddai gan y dewis hwn broblemau gan fod y bont gyfredol yn strwythur rhestredig)
E. Adeiladu pont droed ar ei phen ei hun newydd

Rhoddwyd y dewisiadau gwella yn nhrefn y rhai a ffafrir, '1' ffafrir fwyaf, '5' ffafrir lleiaf, gan alluogi i bob dewis gwella ennill pwyntiau. Mae'n dilyn mai’r dewis gwella gyda nifer lleiaf y cyfanswm pwyntiau yw'r dewis gwella a ffafrir yn gyffredinol. Cafodd y pwyntiau ar gyfer pob dewis gwella o bob ymateb holiadur eu casglu, eu cyfrif a'u dangos yn y tabl isod. O'r data hwn, gellir gweld mai dewis E yw'r un a ffafrir, a dewis A yw'r un a ffafrir lleiaf, a dewis C yw'r un a ffafrir lleiaf ond un.

| | **E** | **D** | **B** | **C** | **A** |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwynt | 306 | 380 | 485 | 546 | 592 |

Mae'r cyfanswm pwyntiau a ddadansoddwyd o'r cwestiwn hwn ychydig yn anghywir gan na roddodd 49 (23.9%) o'r ymatebwyr sgôr pwyntiau i bob dewis. Dim ond un

dewis gwella a ddewisodd nifer o'r ymatebwyr. Felly, roedd hyn yn cynyddu'r pwyntiau yr oedd y dewis gwella a ffafrir yn eu hennill, ac yn methu â chynyddu pwyntiau'r dewisiadau gwella gyda llai o ffafriaeth. Gan mai'r dewis gwella a ffafrir yn gyffredinol yw'r dewis sy'n ennill i lleiaf o bwyntiau, mae'r canlyniadau uchod o'r cwestiwn hwn rhywfaint yn anghywir

Ffordd arall o edrych ar y canlyniadau yw cyfrif pa mor aml y rhestrwyd dewisiadau penodol yn rhifau 1, 2, 3, 4 a 5, fel y dangosir yn y tabl isod, gydag 1 y dewis a ffafrir fwyaf, a 5 y dewis a ffafrir lleiaf.

| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amlder 1** | **27** | **24** | **36** | **38** | **114** |
| Amlder 2 | 4 | 22 | 11 | 75 | 25 |
| Amlder 3 | 15 | 39 | 42 | 16 | 16 |
| Amlder 4 | 23 | 52 | 18 | 21 | 11 |
| Amlder 5 | 82 | 16 | 56 | 12 | 10 |

Y dewis gwella a restrwyd fel rhif 1 (y dewis a ffafrir) amlaf yw Dewis E, gyda Dewis D i ddilyn, ac yna Dewis C, Dewis A ac, yn olaf, Dewis B.

O'r ddau ddadansoddiad pwyntiau, Dewis E, 'Adeiladu pont droed ar ei phen ei hun newydd' yw'r dewis a ffafrir fwyaf, ac yna Dewis D 'Adeiladu pont droed newydd sy'n gysylltiedig i'r bont gyfredol', er y gallai'r dewis hwn fod â phroblemau gan fod y bont gyfredol yn strwythur rhestredig.

Mae'r sylwadau ar gyfer Cwestiwn 5 (rhowch unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw un o'r dewisiadau) yn amrywio, ac nid oes unrhyw themâu cyson. Mae'r ymatebion yn eang eu natur, sy'n eu gwneud yn anodd eu casglu i grwpiau cydlynol.

4.8 C6. Os oes gennych awgrymiadau pellach ar gyfer gwella cysylltiad i gerddwyr ar Bont Caersws, nodwch hwy isod.

Roedd yr awgrymiadau i Gwestiwn 6 yn amrywiol eu natur, ac ni ellir casglu grwpiau na phroblemau clir. Fodd bynnag, mae'n ffynhonnell data cyfoethog bod rhestr y sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 6 yn dal teimladau 205 o drigolion lleol a busnes ar gyfer gwelliannau cysylltiad i gerddwyr ar Bont Caersws. Ni roddodd 75 (36.6%) o'r ymatebwyr awgrymiadau pellach i wella.

4.9 Q7. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y treial 'rheolaeth arwyddion traffig', nodwch hwy isod.

| **Categorïau yr ymatebion** | Nifer yr ymatebion a nododd y themau hyn | Canran y 205 ymateb |
|---|---|---|
| Amharu ar lif y traffig/achosi oediadau | 53 | 25.9 % |
| Mwy diogel/wedi gweithio'n dda/syniad da | 20 | 9.8 % |
| Amser anghywir/ddim yn adlewyrchiad cywir | 28 | 13.7 % |
| Mynediad cyfyngedig i strydoedd cyfagos | 16 | 7.8 % |
| Roedd y treial yn wastraff amser/arian | 9 | 4.4 % |

| | | |
|---|---|---|
| Gwyliau’r Haf/Gwyliau'r Banc | 12 | 5.9 % |
| Ddim wedi ateb | 73 | 35.6 % |

Roedd yr ymatebion i Gwestiwn 7 yn amrywiol. Dangosir rhai categorïau cyson yn y tabl uchod.

Roedd ymatebwyr yn aml yn nodi mwy nag un categori. Golyga hyn bod cyfanswm nifer yr ymatebwyr dros 205, felly ni fydd y canran yn dod i 100%. Fodd bynnag, mae'r tabl yn rhoi awgrym da o natur yr ymatebion ar gyfer Cwestiwn 7.

Roedd 53 ymatebydd (25.9%) yn credu bod y treial 'rheolaeth arwyddion traffig' yn amharu ar lif y traffig, neu'n achosi oediadau.

Roedd 20 ymatebydd (9.8) yn credu bod y 'rheolaeth arwyddion traffig' yn syniad da, ei fod yn gweithio'n dda, neu ei fod yn fwy diogel.

Awgrymodd 28 ymatebydd (13.7%) bod y treial wedi cael ei gynnal ar amser anghywir y flwyddyn, neu nad oedd yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa'r traffig.

Cwynodd 16 (7.8%) o'r ymatebwyr bod y 'rheolaeth arwyddion traffig' yn cyfyngu ar fynediad i strydoedd cyfagos.

Awgrymodd naw ymatebydd (4.4%) bod y treial yn wastraff arian neu nad oedd yn gweithio.

Nododd 12 ymatebydd (5.9%) y byddai canlyniadau'r treial yn wahanol ym misoedd yr haf, yr amseroedd prysuraf neu wyliau'r banc.

Ni roddodd 73 o'r ymatebwyr (35.6%) ateb.